

# **Ymchwiliad Llifogydd Adran 19**

## **23 Rhagfyr 2020**

### **Ffordd Sully Moors, Bro Morgannwg**

**Fersiwn 2**

**Rhagfyr 2023**

**[www.jbaconsulting.com](http://www.jbaconsulting.com)**

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad yma wedi ei gynhyrchu yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar Gyngor Bro Morgannwg (CBM) dan Adran 19 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Ddeddf yn nodi, "Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae rhaid i'r awdurdod llifogydd lleol (ALL), i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol, ymchwilio:

pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol a

a yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer neu'n bwriadu arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd " ".

Mae'r ymchwiliad Adran 19 yma yn darparu adroddiad ffeithiol o'r digwyddiad storm a ddigwyddodd ar yr 23ain o Ragfyr 2020 a'r llifogydd a ddigwyddodd ar Ffordd Sully Moors a Stad Ddiwydiannol Ty-Verlon fel canlyniad. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar yr ardal sydd wedi'w leoli ar y ffyrdd a thir o amgylch Sully Brook, Sully Drain, ac Afon Tregatwg i'r gogledd-orllewin o Sili. Mae hefyd wedi'i hysbysu'n rhannol gan ddadansoddiad data Adran 19 ar gyfer Dinas Powys a gynhyrchwyd gan JBA Consulting ym mis Mawrth 2021.

Mae'r adroddiad dadansoddi data Adran 19 yn adnabod bod o ganlyniad cyfres o ddigwyddiadau storm a ddigwyddodd yn trwy gydol mis Rhagfyr 2020, bod y priddoedd eisioes yn dirlawn cyn y glawiad ar y 23ain o Ragfyr 2020. Mae'r storm yn cael ei adrodd o fod yn gyfateb i ddigwyddiad glawiad 1 mewn 20 mlynedd, sy'n cyfateb i siawns o 5% o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Tarddodd y llifogydd o'r digwyddiad storm drom a achosodd lifogydd afonol a dŵr wyneb eang.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adroddiad yma yn dangos mae achos y llifogydd oedd canlyniad glaw trwm ynghyd a lefelau dwr uchel oedd eisioes yn y Sully Brook, Sully Drain, ac Afon Tregatwg, yn ogystal a bod draeniad priffyrdd a rhwydweithiau carthffosiaeth dwr wyneb wedi'w cloi yn hydrolig ac yn methu allyru, gan arwain at lifogydd ar Ffordd Sully Moors, ardaloedd cyfagos, a Stad Ddiwydiannol Ty-Verlon.

Fodd bynnag, nodir bod cynhwysedd y rhwydwaith ddraenio wyneb a priffyrdd bresennol ddim yn cael ei ddeall yn llawn a felly ni ellir penderfynu effaith lawn y lleihad yma mewn cynhwysedd yn gywir.

Mae argymhellion allweddol o'r adroddiad yma'n cynnwys:

- Adolygu gweithredoedd ac amledd cynnal a chadw ar gyfer Sully Brook, Sully Drain, ac Afon Tregatwg.
- Ystyried opsiynau dalgyrch yn bellach er mwyn lleihau y risg llifogydd dŵr wyneb.
- Ymchwilio dichonoldeb o gynyddu amledd presennol glanhau system ddraenio priffyrdd Ffordd Sully Moors.
- Cyswllt rhwng CBM a CNC ar yr ardaloedd o bryder o fewn dalgyrch Tregatwg.
- CBM i ymgynghori â'r Awdurdod Priffyrdd ynglyn â'r rhwydwaith dŵr wyneb priffyrdd, mewn perthynas ag arllwysfeydd a falfiau stopio sy'n arllwys i Afon Tregatwg.
- CBM i gysylltu a DCWW mewn perthynas a'u asedau yn Stad Ddiwydiannol Ty-Verlon.
- Ymgymeru ymchwiliad CCTV o gyflwr a chynhwysedd y rhwydwaith draenio priffyrdd.
- Adolygu cynllun cynnal a chadw ar gyfer y rhwydwaith draeniad priffyrdd a dŵr wyneb.

